**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Adroddiad ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Gorffennaf 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Adroddiad ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)

Gorffennaf 2010

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 ac 15.16 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

## Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Y Ceidwadwyr Cymreig | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |

## Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** .......... 5

**Swyddogaeth y Pwyllgor** .......... 6

Rheolau Sefydlog .......... 6

**Y Mesur Arfaethedig** .......... 6

Cwmpas a Bwriad .......... 6

Pwerau gwneud Is-ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau .......... 7

Comisiynydd y Gymraeg – Rheoliadau Penodi'r Comisiynydd, Aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys .......... 7

*Rheoliadau Penodi'r Comisiynydd* .......... *7*

*Dirprwyo Swyddogaethau'r Prif Weinidog* .......... *7*

*Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Panel Cynghori* .......... *8*

*Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Tribiwnlys* .......... *8*

Y modd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni ei swyddogaethau .......... 8

*Cymorth cyfreithiol: costau* .......... *8*

*Adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg* .......... *8*

*Uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd* .......... *9*

*Cyfyngiadau ar y Comisiynydd* .......... *9*

Y Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag ombwdsmyn rhagnodedig neu awdurdodau eraill, a gweithio'n gyfochrog â hwy .......... 9

*Gweithio ar y cyd rhwng y Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru* .......... *9*

*Gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill* .......... *10*

*Pŵer i ddatgelu gwybodaeth* .......... *10*

Gosod safonau ar bersonau a bennir yn y Mesur .......... 10

*Pennu safonau* .......... *10*

*Diwygio'r personau a'r categorïau a bennir yn Atodlenni 6 ac 8* .......... *11*

*Diwygio swm yr arian cyhoeddus y mae'n rhaid i berson ei dderbyn er mwyn cael ei gynnwys o fewn y disgrifiad o berson yng nghofnod (5) o Atodlen 5* .......... *11*

*Gwneud safonau'n benodol gymwys i berson* .................................... 11
*Y ddyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys* ........................................................................................ 11
*Rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd* ..................................................... 12
Rhoi cosbau sifil ......................................................................... 12
Rheolau ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys ................................ 12
Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol ............................. 12
Darpariaeth gychwyn ..................................................................... 13
Diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a throsglwyddo'i swyddogaethau .. 13
**Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor.......... 13**
Cyffredinol.................................................................................... 13
Trefniadau penodi Comisiynydd y Gymraeg ...................................... 13
Gosod safonau ar bersonau a bennir yn y Mesur ............................... 14
Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Ganlyniadol ............................ 16
**Tystion ......................................................................................... 17**
**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig................................................. 18**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1**. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau o dan baragraff 7 o Atodlen 1, sy'n darparu ar gyfer penodi'r Comisiynydd, gael eu gwneud gan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. **(Tudalen 14)**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell fod Safonau dangosol cymharol fanwl yn cael eu cyhoeddi fel cyfraniad i'r ddadl gyhoeddus ar yr agwedd hon ar y Mesur. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell fod y Mesur yn cael ei ddiwygio i gynnwys rhestr o weithgareddau mewn cysylltiad â safonau ar wahân i safonau darparu gwasanaethau, fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 9. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell fod y Mesur yn cael ei ddiwygio i ddarparu bod gorchymyn o dan adran 143, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. **(Tudalen 16)**

## Swyddogaeth y Pwyllgor

### Rheolau Sefydlog

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiad arnynt:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru'.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau o ran rhinweddau'r cynnig y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6 (v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar 'unrhyw fater deddfwriaethol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'.

2. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyfnodau deddfwriaethol dilynol.

## Y Mesur Arfaethedig

3. Cyflwynodd Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, y Mesur arfaethedig ar 4 Mawrth 2010. Dilynwyd hyn gan ddatganiad deddfwriaethol gan y Gweinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Mawrth 2010. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyfeirio i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 (egwyddorion cyffredinol). Y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 yw 23 Gorffennaf 2010.

### Cwmpas a Bwriad

4. Y bwriad a nodwyd ar gyfer Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) 2010 yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Pwerau gwneud Is-ddeddfwriaeth a Gweithdrefnau**

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Ceir esboniad o'r rhain yn Rhan 1 (5) o'r Memorandwm Esboniadol a osodwyd gyda'r Mesur Arfaethedig, ac yn y Nodiadau Esboniadol a ddaw ar ddiwedd y Memorandwm hwnnw. Mae Adran 139 o'r Mesur yn nodi pa orchmynion neu reoliadau fydd yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau penderfyniad cadarnhaol neu'r gweithdrefnau penderfyniad negyddol..

6. Mae pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnwys yn yr adrannau a ganlyn:-

***Comisiynydd y Gymraeg – Rheoliadau Penodi'r Comisiynydd, Aelodau'r Panel Cynghori a'r Tribiwnlys***

*Rheoliadau Penodi'r Comisiynydd*

7. Mae **adran 2(2)** yn darparu bod yn rhaid i'r Prif Weinidog benodi'r Comisiynydd. Yna, mae **Atodlen 1** yn darparu manylion pellach am weithdrefnau penodi. Mae paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1 yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Weinidog gydymffurfio â rheoliadau penodi dilynol. Mae paragraff 7 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu panel o unigolion a fydd yn cyfweld ymgeiswyr ac yn gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog.

8. **Gweithdrefn:** Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Dirprwyo Swyddogaethau'r Prif Weinidog*

9. Mae **Atodlen 1**, paragraffau 8 (1) a (2) yn caniatáu i'r Prif Weinidog wneud gorchymyn i ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Comisiynydd i Weinidogion Cymru.

10. **Gweithdrefn**: Os oes angen diwygio'r Mesur mewn unrhyw ffordd ar gyfer y swyddogaethau dirprwyedig hyn, bydd hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol.** Pan na fydd y gorchymyn yn darparu ar gyfer diwygio'r Mesur arfaethedig, bydd y gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Panel Cynghori*

11. Mae **adran 22** o'r Mesur yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Panel Cynghori ac mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch pwerau gwneud rheoliadau yn hynny o beth.

12. **Gweithdrefn**: Bydd unrhyw reoliadau sy'n ymdrin â phenodi aelodau'r panel cynghori yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Rheoliadau penodi mewn perthynas ag aelodau'r Tribiwnlys*

13. Mae **adran 109 (3)** yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys ac mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaethau pellach ynghylch pwerau gwneud rheoliadau yn hynny o beth.

14. **Gweithdrefn:** Bydd unrhyw reoliadau sy'n ymdrin â phenodi aelodau'r Tribiwnlys yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

***Y modd y mae'r Comisiynydd yn cyflawni ei swyddogaethau***

*Cymorth cyfreithiol: costau*

15. Mae **adran 9** yn ymdrin ag adennill treuliau'r Comisiynydd a oedd yn gysylltiedig â darparu cymorth cyfreithiol o dan adran 8. Mae adran 9(4) yn darparu y bydd rheoliad yn cael ei wneud er mwyn cyfrifo treuliau'r Comisiynydd.

16. **Gweithdrefn**: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg*

17. Mae **adran 108** yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch:

- yr adroddiadau gan y Comisiynydd i Weinidogion Cymru am y ceisiadau a wneir gan unigolion i'r Comisiynydd yn gofyn am ymchwiliad i achos honedig o ymyrryd â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg;
- y camau a gymerodd y Comisiynydd mewn ymateb i geisiadau o'r fath; a

- barn y Comisiynydd o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith i warchod rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd.

18. **Gweithdrefn**: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd*

19. Mae Rhan 8, Pennod 1 o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd.

20. Mae **adran 129** yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru nodi pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion cofnodi gwrthdrawiadau buddiannau a chreu, cynnal a chyhoeddi cofrestrau buddiannau.

21. **Gweithdrefn**: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Cyfyngiadau ar y Comisiynydd*

22. Mae **adran 133** yn nodi nad yw'r Comisiynydd wedi'i awdurdodi i arfer swyddogaeth benodol sydd, yn rhinwedd deddfiad, yn arferadwy gan berson arall, ac nad oes gofyn iddo wneud hynny. Mae adran 133 (2) yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru bennu a nodi y swyddogaethau penodol a'r personau o dan sylw.

23. **Gweithdrefn**: Byddai gorchmynion o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

***Y Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag ombwdsmyn rhagnodedig neu awdurdodau eraill, a gweithio'n gyfochrog â hwy***

*Gweithio ar y cyd rhwng y Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*

24. Mae **adran 19** o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd yn gweithio ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae adran 19 (4) (a) yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru ddarparu bod adran 19 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson arall fel y mae'n gymwys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

25. **Gweithdrefn**: Byddai gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol** os yw'r gorchymyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Os nad yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, byddai'r gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill*

26. Mae **adran 20** o'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gweithio'n gyfochrog rhwng y Comisiynydd ac ombwdsmyn eraill.

27. Mae adran 20 (7) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y diffiniad o ombwdsmon yn isadran (6). Mae gorchymyn a wneir o dan adran 20 (7) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

28. Mae isadran (8) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion neu o ganlyniad i ddiwygiad a wneir drwy orchymyn o dan isadran (7). Mae gorchymyn a wneir o dan adran 20 (8) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol,** oni bai ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac, os felly, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

*Pŵer i ddatgelu gwybodaeth*

29. Mae **adran 21** o'r Mesur arfaethedig yn ymdrin â gwybodaeth a gafwyd wrth i'r Comisiynydd arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, a sut y rheolir y wybodaeth honno. Mae adran 21 (10) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o "person a ganiatawyd" yn isadran (9).

30. **Gweithdrefn**: Byddai gorchymyn a wnaed o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

***Gosod safonau ar bersonau a bennir yn y Mesur***

*Pennu safonau*

31. Mae **adran 25(1)** yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bennu safonau a fydd yn berthnasol mewn perthynas â phersonau.

32. **Gweithdrefn**: Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

*Diwygio'r personau a'r categorïau a bennir yn Atodlenni 6 ac 8*

33. Mae **adrannau 34 a 37** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlenni 6 ac 8 yn y drefn honno, sy'n pennu'r personau neu'r categorïau o bersonau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau.

34. **Gweithdrefn:** Bydd y gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol** oni bai y gwneir y gorchymyn o ganlyniad i newid enw person. Os digwydd hynny, bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

*Diwygio swm yr arian cyhoeddus y mae'n rhaid i berson ei dderbyn er mwyn cael ei gynnwys o fewn y disgrifiad o berson yng nghofnod (5) o Atodlen 5*

35. Mae **paragraff 1 (1) o Atodlen 5** i'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio cofnod (5) yn y tabl drwy gyfnewid y swm perthnasol o arian cyhoeddus am unrhyw swm arall heb fod yn llai na £400,000.

36. **Gweithdrefn**: Bydd gorchymyn o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

*Gwneud safonau'n benodol gymwys i berson*

37. Mae **adran 38** yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i berson sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gydymffurfio â safon.

38. **Gweithdrefn**: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

*Y ddyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys*

39. Mae **adran 41** yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru sy'n awdurdodi'r Comisiynydd i ddiwygio'r rhestr o weithgareddau yn Atodlen 9 y mae gofyn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â hwy.

40. **Gweithdrefn**: Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

*Rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd*

41. Mae **adran 68** yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd a gynhwysir mewn cofnodion a gedwir gan berson sy'n ddarostyngedig i orfod cydymffurfio â safonau cadw cofnodion.

42. **Gweithdrefn**: Bydd rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

***Rhoi cosbau sifil***

43. Mae **adran 82** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, gyfnewid swm gwahanol am y gosb sifil uchaf o £5,000 y gellid ei gosod mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

44. **Gweithdrefn**: Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

***Rheolau ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys***

45. Mae **adran 112** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Tribiwnlys wneud rheolau sy'n llywodraethu ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys. Mae'r rheolau yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud offeryn statudol sy'n cynnwys y rheolau.

46. **Gweithdrefn**: Bydd y rheolau sy'n llywodraethu ymarferiad y Tribiwnlys o ddydd i ddydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

***Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol***

47. Mae **adran 143** yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch darpariaethau trosiannol a diwygiadau canlyniadol ar y Mesur.

48. **Gweithdrefn:** Bydd gorchmynion a gaiff eu gwneud o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

***Darpariaeth gychwyn***

49. Mae **adran 145 (2)** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion a fydd yn dod â'r Mesur i rym (Gorchmynion Cychwyn).

***Diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a throsglwyddo'i swyddogaethau***

50. Mae **paragraffau 1 a 2** yn **Atodlen 12** yn cynnwys dau bŵer gwneud gorchmynion a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth er mwyn i staff Bwrdd yr Iaith Gymraeg drosglwyddo i'r Comisiynydd neu Weinidogion Cymru ac i ymdrin â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd.

51. **Gweithdrefn**: Bydd y gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

## Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

52. Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) ar 27 Mai 2010 a chafodd dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth, a'i swyddogion.

### Cyffredinol

53. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Mesur arfaethedig ar y cyfan yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng pwerau ar ei wyneb a'r pwerau is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru.

54. Er bod nifer sylweddol o bwerau gwneud rheoliadau yn y Mesur arfaethedig, mae'r Pwyllgor yn fodlon hefyd na fydd yn or-gymhleth.

55. O ran y darpariaethau is-ddeddfwriaeth y mae'n eu cynnwys, nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

### Trefniadau penodi Comisiynydd y Gymraeg

56. Rhaid i'r Prif Weinidog benodi Comisiynydd y Gymraeg a rhaid iddo wneud hynny yn unol â darpariaethau a wneir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Bydd yr holl reoliadau hyn yn dod i drefn i gael eu gwneud gan y weithdrefn negyddol.

57. Dylai'r trefniadau ar gyfer penodi Comisiynydd (neu benodiad cyhoeddus tebyg) sicrhau digon o annibyniaeth resymol i ymgymryd â'r swydd. Rydym wedi cael cyngor gan ein cynghorwyr cyfreithiol (gweler y rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig) am y gwahanol drefniadau a allai fod yn gymwys. Gall y rhain amrywio o benodiad gan y Frenhines yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad Cenedlaethol i benodiad gan Weinidogion Cymru. Gall trefniadau eraill, fel hyd y swydd gael effaith ar yr hyn sy'n ymddangos fel annibyniaeth y Comisiynydd. Nid oes unrhyw reol gadarn, bendant y gellir ei defnyddio a bydd yr annibyniaeth yn amrywio yn ôl natur y penodiad, y swyddogaethau sydd i'w cynnal ac i ba raddau y mae rheolaeth wleidyddol a chyfarwyddyd yn briodol.

58. Ni chredwn ei bod yn rhan o'n cylch gwaith i wneud sylwadau o ran a yw'r trefniadau penodi yn yr achos hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyfeiriad gwleidyddol ac annibyniaeth. Fodd bynnag, credwn y bydd y mater hwn yn ffactor allweddol wrth sefydlu hygrededd y Comisiynydd ymhen amser. Credwn fod hwn yn faes lle y dylai Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol gael cyfle i ystyried a phenderfynu a yw'r trefniadau a gaiff eu cyflwyno yn y diwedd yn cyflawni'r cydbwysedd hwn. Am y rheswm hwn, credwn y dylai'r rheoliadau penodi perthnasol gael eu gwneud gan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau o dan baragraff 7 o Atodlen 1, sy'n darparu ar gyfer penodi'r Comisiynydd, gael eu gwneud gan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

### Gosod safonau ar bersonau a bennir yn y Mesur

59. Mae Adran 25(1) o'r Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i nodi safonau cymwysedig. Cawsom ein hysbysu o bryderon a fynegwyd gan amrywiaeth eang o dystion i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ei bod yn anodd iawn gwybod sut y bydd y safonau'n edrych, ac a fyddent, felly, yn gallu cynnal y cynigion ai peidio. Felly mae'r rheoliadau a wneir o dan Adran 25(1) yn bwysig iawn gan y byddant yn rhoi diffiniad o beth yw Safonau.

60. Mewn tystiolaeth[1], pwysleisiodd y Gweinidog a'i swyddogion eu barn fod angen ymarferol dros fod yn hyblyg. Drwy nodi safonau yn fwy pendant ar wyneb y Mesur, roedd pryderon hefyd y gallai'r Mesur ei hun orfod cael ei ddiwygio pe bai unrhyw rai o'r Safonau wedyn yn destun her gyfreithiol lwyddiannus.

61. Pwysleisiodd y Gweinidog[2] y byddai angen ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt cyn y gellir gosod y Safonau. Soniodd ei swyddogion[3], hefyd, bod disgrifiad yn Adrannau 27 i 31 o'r hyn y byddai'r safonau yn ei wneud a bod rhestr yn Atodlen 9 o weithgareddau penodol yn y Safonau y disgwylir i'r safonau yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth eu cynnwys.

62. Rydym yn falch y bydd y Rheoliadau sy'n gosod safonau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, a chredwn fod hyn yn hollol briodol o dan yr amgylchiadau. Rydym yn nodi, hefyd, bod adrannau 27 i 31 yn rhoi rhyw syniad o'r math o feysydd y mae'r safonau yn debygol o gael eu gosod.

63. Er ein bod yn derbyn bod risgiau cyfreithiol yn gysylltiedig â chyfleu manylion y Safonau ar wyneb y Mesur, ac y gallai hyn fod yn rhy anhyblyg, rydym yn parhau yn bryderus nad yw'r Mesur yn rhoi syniad digon clir i'r rhai y bydd ei darpariaethau yn effeithio arnynt o sut y bydd y safonau yn edrych yn ymarferol.

64. Mewn tystiolaeth, dangosodd[4] y Gweinidog ei fod yn barod ystyried a fyddai'n bosibl llunio Safonau dangosol a fyddai'n helpu i lywio gweddill y gwaith o ystyried y Mesur. Deallwn ei fod bellach wedi ysgrifennu[5] at Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn dangos sut y gallai'r Safonau edrych. Nid ydym wedi rhoi ystyriaeth uniongyrchol i lythyr y Gweinidog, ond credwn ei bod yn bwysig y dylai Safonau dangosol fod mor fanwl â phosibl ac y dylent gael eu cyhoeddi fel bod y rhai y gallai'r Safonau effeithio arnynt yn cael cyfrannu at ddadl gyhoeddus ar y maes hwn.

---

[1] Cofnod y Trafodion (Y Cofnod) – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol (CA), 27 Mai 2010 paras 59-65
[2] Ibid
[3] Ibid
[4] Ibid para 67
[5] Llythyr dyddiedig 14 Mehefin http://www.cynulliadcymru.org/afff_to_vl_june_2010-e.pdf

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell fod Safonau dangosol cymharol fanwl yn cael eu cyhoeddi fel cyfraniad i'r ddadl gyhoeddus ar yr agwedd hon ar y Mesur.**

65. Mae'n ddefnyddiol bod Atodlen 9 yn rhestru nifer o weithgareddau lle y dylid nodi safonau ar gyfer darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, ar wahân i ddarparu gwasanaethau, gall Gweinidogion, hefyd, drafod safonau gwneud polisïau, safonau gweithrediadol, safonau hyrwyddo a safonau cadw cofnodion. O gofio ei bod yn bosibl rhestru gweithgareddau y mae'n rhaid eu nodi mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, ymddengys nad oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ellir dynodi gweithgareddau yn erbyn y safonau eraill, yn arbennig safonau gweithrediadau. Credwn y byddai hyn yn ddefnyddiol.

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell fod y Mesur yn cael ei ddiwygio i gynnwys rhestr o weithgareddau mewn cysylltiad â safonau ar wahân i safonau darparu gwasanaethau, fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 9.**

**Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Ganlyniadol**

66. Mae Adran 143 yn rhoi pwerau gwneud darpariaeth drosiannol a diwygiadau canlyniadol ar y Mesur drwy orchmynion i Weinidogion Cymru. Gan nad yw'r pŵer hwn wedi'i nodi yn adran 139, byddai'r weithdrefn negyddol yn berthnasol. Mae'n arferol i bwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol os ydynt yn diwygio Mesurau neu Ddeddfau Seneddol. Gellir gweld enghreifftiau yn adran 51 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 12 o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008.

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell fod y Mesur yn cael ei ddiwygio i ddarparu bod gorchymyn o dan adran 143, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

## Tystion

67. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 27 Mai 2010. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn yn www.cynulliadcymru.org

27 Mai 2010

| | |
|---|---|
| Alun Ffred Jones AC | Y Gweinidog dros Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru |
| Dr Huw Onllwyn Jones | Pennaeth Uned Bolisi'r Gymraeg a'r Cyfryngau, Llywodraeth Cymru |
| Nerys Arch | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

68. Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

| Dogfen | Cyfeirnod |
|---|---|
| Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) | CA(3)-15-10(p1) |
| Memorandwm Esboniadol | CA(3)-15-10(p2) |
| Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-15-10(p3) |
| Llythyr dyddiedig 25 Mawrth gan y Cadeirydd yn gwahodd y Cadeirydd i roi tystiolaeth | CA(3)-15-10(p4) |
| Ymateb y Gweinidog ar 17 Mai | CA(3)-15-10(p5) |
| Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Atebolrwydd Comisiynwyr | CA(3)-18-10(p8) |
| Llythyr dyddiedig 14 Mehefin gan y Gweinidog dros Dreftadaeth at Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 | CA(3)-18-10(p9) |